**Pwyllgor Datblygiad Economaidd EDC-10-99(min)TERFYNOL**

**COFNODION TERFYNOL**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Tachwedd, 1999 | |
| **Amser:** | 9.00-12.30 | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Presennol** | **Aelodau** | (Etholaeth) |
| | Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| | Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| | Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| | Ron Davies | Caerffili |
| | Michael German | De Ddwyrain Cymru |
| | Brian Hancock | Islwyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |
| | **Swyddogion** | (Adran) |
| | Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| | Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd |

| | |
|---|---|
| Steve Phillips | Pennaeth Adran Datblygiad Rhanbarthol |
| **Cyfranwyr allanol** | **Bwrdd Croeso Cymru** |
| Tony Lewis | Cadeirydd |
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr |
| Jeff Pride | Cyfarwyddwr Datblygu |
| **Adran Ysgrifenyddol** | |
| Helen Usher | Clerc |
| Jo Trott | Dirprwy Glerc |
| Joanne Glenn | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd papur ar reoli busnes y pwyllgor wedi'i anfon at aelodau oherwydd y swm helaeth o fusnes oedd gerbron y Pwyllgor. Roedd angen ymatebion ar frys a gofynnwyd i aelodau siarad neu e-bostio'r Cadeirydd neu'r Clerc.

**[Gweithredu: Aelodau]**

1.2 Cynigiodd y Cadeirydd y dylai roi gwybod i'r aelodau am y gwaith a wneir yn ei swydd fel Cadeirydd o dro i dro. Dywedodd wrth aelodau y byddai'n mynychu'r gynhadledd Ewropeaidd ar TCG yn ôl y Pumed Fframwaith, yn Helsinki, yr wythnos ganlynol. Mae Cymru wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan fel un o dri rhanbarth Ewropeaidd. Byddai cynrychiolwyr o'r WDA a BT yn gwmni iddi. Rhoddodd wahoddiad i aelodau'r pwyllgor oedd â phrofiad perthnasol ei gyflwyno iddi.

**[Gweithredu: Aelodau]**

**Eitem 2: Cofnodion cyfarfod 3 Tachwedd**

2.1 Paragraff 3.6, trydedd fwled – dylid ychwanegu'r gair 'cynhyrchu' ar ôl 'awyrofod'.

2.2 Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at EDC-10-99(p.1w) a oedd yn ymwneud â'r gweithredu oedd heb ei wneud. Roedd pwyntiau pellach yn cynnwys:

- Dylid anfon ymatebion i bapur arfaethedig y Pwyllgor Materion Cymreig at y Clerc cyn gynted ag y bo modd. **[Gweithredu: Aelodau]**
- Ni fyddai'r Cadeirydd yn trafod materion fel y Banc Datblygu gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig oherwydd nad oedd yn gyfrifol amdanynt. Byddai'n cynrychioli barn y Pwyllgor i'r PMC yn hytrach na chreu meysydd trafod newydd nad oedd y Pwyllgor wedi'u
- Byddai'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ar Ôl 16 yn cynhyrchu adroddiad ar ETAG yn fuan. Cytunwyd na fyddai swyddogaeth menter TEC yn cael ei gweithredu rhagor ond y byddai amser i'r Pwyllgor Datblygiad Economaidd edrych ar y swyddogaeth menter eto. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwneud hyn pan fyddai cymorth busnes yn cael ei ystyried yn y Flwyddyn Newydd.
- yn bryderus bod ETAG wedi cael ei esgeuluso oherwydd pwysau amser a bod 'perchnogaeth' wedi ei roi i'r Pwyllgor Ar Ôl 16 o ganlyniad. Roedd pryder hefyd y byddai ETAG yn cael ei drafod yn y sesiwn llawn cyn i'r Pwyllgor gael y cyfle i ystyried hyn ymhellach. Cynigiodd y Cadeirydd y gallai hi a'r Clerc archwilio ffyrdd o gael rhagor o amser i'r Pwyllgor drafod ETAG. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gyflwyno pryderon y Pwyllgor i'r Cabinet a rhoddodd sicrwydd na fyddai penderfyniadau ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu gwneud yn y sesiwn llawn cyn i'r Pwyllgor eu hystyried eto.
- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai swydd y Prif Weithredwr yn cael ei hysbysebu'n fuan, yr wythnos ganlynol o bosib. Cytunodd i roi copïau o'r hysbyseb a'r disgrifiad swydd i'r Pwyllgor pan fyddai'r rhain ar gael. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad wrth y Pwyllgor bod y ddogfen fframwaith Cymorth Cymuned ar gyfer Amcan 3 i'r DU wedi'i hanfon at y Comisiwn. Byddai'r rhaglen weithredu ar gyfer Cymru'n cael ei hanfon ddiwedd y mis.

**Adroddiad Llafar Ysgrifennydd y Cynulliad**

- Roedd dyfodol y ffatri Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiogel yn awr oherwydd penderfyniad Ford iddi weithredu fel cyflenwr unigol i'r peiriant Sigma. (Byddai'r i4 yn cael ei ddatblygu yn Valencia, a'r i5 yn Cologne. Nid oedd grant RSA yn rhan o hyn a hwn oedd y pedwerydd prosiect mawr i greu swyddi (ar ôl ESM, Wilkinson Hardware a Mobile Telephone) nad oedd yn cynnwys RSA. Nid oedd yn gwybod os oedd cymorth ar gael gan y llywodraeth yn Valencia neu Cologne ond cytunodd i gyflwyno'r ffigyrau i'r Pwyllgor os oeddent ar gael. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- Roedd y Ddogfen Rhaglen Unigol wedi'i derbyn gan y Comisiwn Ewropeaidd. Golygai hyn bod y Comisiwn wedi derbyn ffigyrau dechreuol y Cynulliad ar y gwariant cyhoeddus a phreifat a amlinellwyd yn y tablau.

**Eitem 3: Gweithredu rhaglenni Amcan 1 a 3**

3.1 Wrth gyflwyno'r papur, croesawodd y Cadeirydd y cynigion yn y papur. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

**Sut fyddai'r cronfeydd ar gael (paragraffau 5-15)**

- Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion yn y papur. Gellid trafod y pwyntiau mwy manwl yn ddiweddarach yn y broses.
- Byddai'r Pwyllgor am fonitro y pecynnau arfaethedig er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol.
- Roedd angen 'gwerthu'r' cynigion yn ragweithiol, yn enwedig i'r sector preifat.
- Nid oedd y papur yn cyfeirio at sut y dylai pecynnau lleol gael eu strwythuro ac roedd rhai awdurdodau lleol wedi creu partneriaethau lleol yn barod. Cytunwyd y dylid ystyried darparu model ar gyfer sut allai sefydliadau lleol weithio â'i gilydd.
- Roedd angen diffinio ffiniau partneriaethau lleol. Cynigiwyd y dylai'r rhain ddilyn ffiniau awdurdodau lleol (neu grðp o awdurdodau lleol efallai), ond nid oedd hyn yn rhagdybio y byddai awdurdodau lleol yn tra-arglwyddiaethu dros y pecyn.
- Cytunodd y Pwyllgor nad oedd llinell gyfrifoldeb glir wedi'i chynnig i sicrhau bod pecynnau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gydlynol. Yn yr un modd, os oedd y gwahanol lefelau'n anghytuno, nid oedd ffynhonnell ar gyfer cyfryngu. Argymhellwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r berthynas rhwng pecynnau lleol/ rhanbarthol/ cenedlaethol a rhoi cyngor i sefydliadau i'w helpu gyda gwybodaeth ar gyfer eu penderfyniadau ynghylch y lefel briodol i fynd amdani.
- Dylai gweithrediad a gwaith y Pwyllgor Monitro fod yn eitem reolaidd yng nghynllun gweithio at y dyfodol y Pwyllgor.

**Crynodeb y Cadeirydd**

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu dull y pecynnau integredig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol arfaethedig.
- Dylid cael mecanwaith darparu lleol cryf, y gallai'r awdurdod lleol ei arwain. Dylai'r WLGA a'r Pwyllgor Monitro ddatblygu cynigion ar sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.
- Roedd angen i'r pecynnau lleol gynnwys themâu cenedlaethol. Dylid ystyried sut y dylai'r integreiddio hwn ddigwydd. Roedd angen defnyddio profiad WEPE.
- Dylid cael cydbwysedd rhwng gofynion monitro caeth y Comisiwn Ewropeaidd a hyblygrwydd yn y ddarpariaeth.
- Nid oedd yn briodol trafod manylion cyrff atebol, cyrff blaen, a phecynnau yn y cyfnod hwn, ond byddent yn faterion i'r Pwyllgor yn ddiweddarach.
- Disgwyliwyd y byddai grwpiau partneriaeth ar bob lefel o'r pecynnau er mwyn sicrhau natur drawsbynciol y pecynnau. Roedd angen cymryd agwedd ragweithiol wrth roi'r partneriaethau hyn at ei gilydd a'u rhoi ar waith yn awr.

**Pwyllgorau Monitro (paragraffau 20-25)**

- Cytunwyd y byddai llwyddiant yn dibynnu ar faint y pwyllgor monitro, a theimlwyd mai pymtheg fyddai'r nifer cywir. Byddai pwyllgor rhy fawr yn arwain at anawsterau wrth reoli'r llwyth gwaith.
- Roedd ymgynghoriad yn hanfodol os oedd y cynigion i gael eu derbyn yn eang. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn rhywfaint o ymateb negyddol gan sefydliadau ynghylch y

pwyllgor monitro arfaethedig. Er hynny, y farn gyffredinol oedd y byddai cadw'r pwyllgor monitro yn ddigon mawr i hwyluso busnes effeithlon yn golygu na fyddai pawb yn hapus â'r cynigion. Cytunwyd bod angen ymgynghoriad pellach ynglþn â'r trefniadau.

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r model aelodaeth arfaethedig o draean: traean: traean. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Monitro, oherwydd ei natur, yn cynrychioli diddordebau'r rhai a gânt fudd o'r rhaglenni yn y pen draw a'r rhai hynny a fyddai'n darparu'r rhaglenni.
- Roedd pryder ynglþn â chyfansoddiad y traean olaf (a nodir fel Arall). Dylai'r rhan hon gynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymuned ac ystyriwyd nad oedd yn briodol cynnwys cynrychiolaeth Addysg Uwch a Phellach a'r TECS yn yr adran hon. Dylai'r sefydliadau hyn (a allent gael eu cyfuno yn dilyn ad-drefniant ETAG) fod o fewn traean y sector cyhoeddus.
- Roedd amgyffred y cyhoedd o'r Pwyllgor Monitro'n bwysig ac felly mae'n bosibl y byddai'n rhaid ei ehangu i sicrhau gwell cynrychiolaeth gan lywodraeth leol.
- Roedd pryder nad oedd bwriad i Fwrdd Croeso Cymru gael eu cynrychioli ar y Pwyllgor oherwydd bod disgwyl iddynt chwarae rôl fawr yn Amcan 1.
- Ni fyddai'n bosibl bodloni pawb a oedd yn rhan o'r broses. Dylai'r Pwyllgor dderbyn hyn a gwneud argymhellion ynglþn â beth oedd yn ei feddwl fyddai'r maint a'r cyfansoddiad priodol.
- Roedd cyfle i gynnwys mwy o sefydliadau yn y Pwyllgor Monitro trwy roi rôl iddynt fel ymgynghorwyr. Roedd cyfle hefyd i gynnwys pobl ar bwyllgorau partneriaeth ar lefelau eraill (ee lleol/rhanbarthol).
- Awgrymwyd ei bod yn bwysig i bobl oedd i wasanaethu ar y Pwyllgor Monitro gael eu casglu o ardaloedd Amcan 1. Er hynny, roedd dadl o blaid ystyried y bobl orau ar gyfer y swydd, heb ystyried lle maent yn byw.
- Roedd yn amod gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cyfleoedd cyfartal yn agwedd integrol o gyfansoddiad y Pwyllgor Monitro. Teimlwyd y dylai hyn olygu cynrychiolaeth o blith lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn ogystal â chydraddoldeb o ran dynion a menywod. Derbyniwyd yr awgrym y dylai sefydliadau enwi tri ymgeisydd er mwyn i un gael ei ddewis.
- Cadarnhawyd nad oedd y dull o ddethol ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth yn gorfod cydymffurfio â'r drefn Penodiadau Cyhoeddus, ond ei bod yn bwysig i'r broses fod yn eglur ac agored.
- Eglurwyd bod gan y Cynulliad Cenedlaethol ddau gynrychiolydd – y Cadeirydd a chynrychiolaeth yn adran lywodraeth y Pwyllgor Monitro.

**Crynodeb y Cadeirydd**

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynglþn â chael cydbwysedd o leisiau yn y Pwyllgor Monitro, ond i'w gyfyngu i faint hawdd ei drin o hyd. Roedd pymtheg yn ymddangos yn faint priodol, ond teimlai'r Pwyllgor bod y cydbwysedd a gynigiwyd yn y papur yn rhoi gormod o gynrychiolaeth i'r sector cyhoeddus. Argymhellwyd yn gryf y dylid rhannu'r aelodaeth yn gyfartal rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.
- Dylai'r penderfyniadau ynglþn â phenodi'r Pwyllgor Monitro fod yn eglur ac agored.

**Gweithredwr Rhaglen (paragraffau 16-19)**

- Rôl y gweithredwr oedd arolygu rhan ariannol y rhaglen. Roedd angen monitro trylwyr i sicrhau bod rheoliadau'r CE yn cael eu dilyn ac na fyddai hawliadau am ad-daliad fel oedd wedi digwydd dan raglenni blaenorol.

- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut ddylai rôl y gweithredwr fod yn fwy rhagweithiol, yn enwedig ar lefel leol.
- Ni ystyriwyd defnyddio sefydliadau chwilio am weithwyr i ddod o hyd i berson addas i fod y Brif Weithredwr.
- Dylid rhoi ystyriaeth frys i'r modd y byddai cyhoeddusrwydd yn cael ei gyllido. Roedd hon yn ran bwysig iawn o'r rhaglen a gallai symiau mawr o arian fod ynglhwm yn hyn. Roedd hefyd angen ystyried sut y gellid cefnogi partneriaethau ar lefel leol.
- Roedd pryderynglþn â'r berthynas rhwng yr Asiantaeth a'r Pwyllgor Datblygiad Economaidd. Teimlwyd y dylai'r Pwyllgor ddarparu arweiniad strategol ar gyfer yr Asiantaeth, yn seiliedig ar y Strategaeth Datblygiad Economaidd Genedlaethol, a monitro'i berfformiad yn yr un ffordd â monitro gwaith sefydliadau eraill yr oedd yn gyfrifol amdanynt (WDA, BCC).
- Cytunwyd ar y penderfyniad nad oedd angen bwrdd rheoli oherwydd rôl y pwyllgor monitro.
- Os oedd cronfeydd dros ben o'r WEPE, dylid eu defnyddio i baratoi ar gyfer cyfnod nesaf y rhaglen.

**Crynodeb y Cadeirydd**

- Roedd y Pwyllgor i gyd yn fodlon â'r cynigion am y gweithredwr rhaglen.
- Dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i drefniadau cyhoeddusrwydd, a chyngor ac arweiniad (yn enwedig ar lefel leol).
- Dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i berthynas yr asiantaeth weithredol â'r Pwyllgor Datblygiad Economaidd. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad nad oedd cyfyngiad wedi'i osod ymlaen llaw ar rôl monitro'r Pwyllgor Datblygiad Economaidd.
- Roedd angen ymgynghoriad eang i gael consensws ynglþn â rôl yr asiantaeth weithredol a chreu aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Monitro a fyddai'n cael derbyniad eang. Roedd yn hanfodol fod gan y rhai hynny a fyddai'n cymryd rhan i wneud y rhaglen yn llwyddiant reolaeth dros y broses. Ond byddai'n rhaid gwneud hyn yn gyflym.

**Eitem 4: Twristiaeth**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau Bwrdd Croeso Cymru (BCC).

**Tony Lewis, Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru**

4.2 Croesawodd Tony Lewis y cyfle i fynychu'r Pwyllgor. Teimlai bod y ffaith fod twristiaeth yn rhan o gyfrifoldeb y Pwyllgor yn briodol o ystyried y cyfraniad a wnaiff twristiaeth i economi Cymru. Tynnodd sylw aelodau at y ddogfen strategaeth twristiaeth ac at yr arolwg o strwythur twristiaeth Cymru, ac roedd BCC wrthi'n ymgynghori (i fod i orffen fis Rhagfyr). Roedd y ddogfen olaf yn arbennig wedi bod yn ddadleuol oherwydd yr amrywiaeth eang o sefydliadau oedd yn cael eu heffeithio ganddi.

4.3 Pwysleisiodd beth oedd BCC yn ei ystyried fel yr anhawster unigol mwyaf oedd yn wynebu twristiaeth yng Nghymru, sef mai 2% yn unig o wariant gan ymwelwyr tramor yn y DU sy'n dod i Gymru. Dywedodd bod Awdurdod Twristiaeth Prydain yn ddefnyddiol, ond nid yn atebol i'r

Cynulliad, ac nid oedd unrhyw dargedau a oedd yn ymwneud yn benodol â hyrwyddo Cymru.

**Jonathan Jones, Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru**

4.4 Yn ystod ei gyflwyniad, cododd Jonathan Jones y pwyntiau canlynol:

- Y strategaeth ar gyfer twristiaeth Cymru oedd creu diwydiant aeddfed, hyderus a llewyrchus a oedd yn gwneud cyfraniad hanfodol a chynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru trwy gyflawni twf cynaliadwy trwy gydlynu a chydweithredu effeithiol ar bob lefel yn y diwydiant.
- Wrth gwrdd â'r amcanion hyn, roedd twristiaeth yn wynebu nifer o anawsterau strwythurol mawr: y dirywiad mewn ymweliadau arhosiad hir; gwendidau o ran y farchnad dramor enillfawr; diffygion yn nhwf ymweliadau arhosiad byr; agwedd dymhorol iawn (cynhyrchir 60% o'r refeniw rhwng Mehefin ac Awst); a natur dameidiog y diwydiant (y mwyafrif o ddarparwyr yn fân fusnesau).
- Roedd y busnes werth tua £1.9 biliwn, gan gyfrannu 7% at gyfanswm CGC Cymru. Roedd hyn yn eithaf uchel o'i gymharu â'r Alban er enghraifft. Cyfeiriodd wedyn at yr effaith luosog a'r dylanwad yr oedd hyn yn ei gael ar amrywiaeth eang o fusnes ledled economi Cymru.
- Roedd ymwelwyr tramor yn hanfodol i dwristiaeth yng Nghymru ac roedd angen eu targedu oherwydd eu bod yn dueddol o wario cryn dipyn yn fwy nag ymwelwyr brodorol.
- Roedd TCG yn hanfodol i ddyfodol y diwydiant. Roedd y llythyr Arweiniad Strategol a ddosbarthwyd i BCC yn gofyn am adroddiad ar TCG a thwristiaeth. Roedd BCC wedi bwriadu dod yn ôl at y Pwyllgor am arweiniaeth ynglþn â sut i ddatblygu'r adroddiad.
- Wrth drafod cyllidebau, roedd Mr Jones yn cymharu'r gyllideb o £19 miliwn ar gyfer twristiaeth yn yr Alban gyda'r £12 miliwn yng Nghymru.

**Jeff Pride, Bwrdd Croeso Cymru**

4.5 Canolbwyntiodd Mr Pride ar rôl BCC ar y Gweithlu Ewropeaidd. Eglurodd bod llai na 3% o'r Cyllid Strwythurol o £80 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer twristiaeth rhwng 1994 a 1999 wedi'i ddyrannu fel cymorth i fusnesau twristiaeth bach a chanolig eu maint. Rhoddodd wahoddiad i'r Pwyllgor gymharu hyn â'r ffaith bod 20% o £369 miliwn o gyllid twristiaeth Iwerddon wedi'i gyfeirio at fusnesau twristiaeth bach a chanolig eu maint.

4.6 Diolchodd y Cadeirydd i BCC am eu cyflwyniad defnyddiol. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynol:

- Cytunwyd y byddai'n ddymunol rhoi gwahoddiad i BCC siarad â'r Pwyllgor (roedd BCC wedi dangos diddordeb mewn gwneud hynny'n barod) **[Gweithredu: Adran Ysgrifenyddol]**
- Trafodwyd yr angen i farchnata Cymru fel cyrchfan trwy'r flwyddyn a chydnabuwyd y berthynas rhwng hyn a datblygiad swyddi 'lefel uwch', gyda gwell sgiliau ac o werth economaidd uwch. Mae'n anochel y byddai'r diwydiant twristiaeth yn parhau i gynhyrchu elfen o gyflogaeth dymhorol, ond roedd cyfle hefyd i godi ansawdd swyddi yn y diwydiant. Roedd hyn yn dibynnu i ryw raddau ar y ffordd yr oedd y diwydiant yn cael ei weld ei

gyfanrwydd.

- O ran ‘Branding Cymru’, roedd angen ailymweld â’r fenter ar frys, a oedd wedi methu cychwyn oherwydd ymrannu a diffyg arweiniaeth. Roedd yn rhaid seilio menter fel hon ar bartneriaethau a gwerthoedd brand cyffredin. Roedd yn rhaid i bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ymrywmo i’r gwerthoedd hyn ac roedd yn hanfodol yn y cyd-destun hwn bod delweddau brand BCC a’r WDA yn ymochrol. Byddai cefnogaeth y Pwyllgor yn cynorthwyo i gychwyn y fenter.
- Roedd BCC wedi cynhyrchu adroddiad dichonoldeb ar gynigion Legend Court. Roedd yr adroddiad wedi bod yn eithaf ffafriol, er bod pryder wedi’i fynegi ynglþn â chynaladwyedd yn ogystal â’r rhagamcanion nifer twristiaid.
- O ran TCG, roedd BCC yn gweithredu rhaglen yn barod a oedd â’r nod o godi ansawdd darpariaeth TCG mewn gwestai yng Nghymru er mwyn denu mwy o gynadleddau a chwrdd ag anghenion busnes.
- Mynegwyd pryder ynglþn ag a oedd y broses ymgynghori’n ddigon cynhwysfawr oherwydd ei bod wedi’i chynnal yn ystod yr haf – amser prysur i’r diwydiant. Roedd cefnogaeth yng Ngogledd Cymru dros gynnal y strwythur presennol.
- Eglurodd BCC bod yr ymgynghoriad wedi’i gyflawni yn unol ag arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol a’u bod wedi ymgynghori â phob corff sectoraidd. Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar y Rhyngrwyd hefyd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ystyried gofyn i BCC ymgymryd ag ymgynghoriad pellach â llywodraeth leol. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- O ran effaith Cwpan Rygbi’r Byd ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, nododd BCC ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn yn codi proffil Cymru ledled y byd. Yn dilyn llwyddiant y rygbi, roedd BCC yn ystyried cefnogi cynnig Terry Matthews am y Gwpan Ryder a thwrnamaint golff blynyddol i Gymru.
- O ran cyfleoedd cyfartal, roedd y gwaith a gyflawnwyd gan BCC yn y cyd-destun hwn wedi’i gydnabod, ond awgrymwyd bod angen rhoi mwy o sylw i roi cyfleoedd cyfartal yn ganolog yn y strategaeth a’r polisïau a fabwysiadwyd. Roedd BCC yn cydnabod hyn ac yn pwysleisio’u hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal.
- Eglurodd BCC eu bod hwy a Bwrdd Croeso’r Alban yn awyddus i gysylltu graddio ag ansawdd, tra bod Lloegr yn ffafrio dull ar sail cyfleusterau. Roedd consensws ymhlith aelodau bod y dull a fabwysiadwyd gan BCC yn un cywir.
- Trafodwyd bwyd a’r mannau da oedd ar gael i fwyta. Mynegodd yr aelodau syndod nad oedd BCC yn gallu rhoi grantiau ar hyn o bryd i sefydliadau bwyta, o ystyried y rôl hanfodol oedd gan fwyd i’w chwarae mewn twristiaeth yn gyffredinol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i adolygu’r polisi. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- Dylai twristiaeth fod yn becyn cenedlaethol dan y cronfeydd strwythurol, a dylai hyn gwmpasu Amcanion 1, 2 a 3.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.7 Cododd y Cadeirydd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y rôl bwysig oedd gan dwristiaeth i’w chwarae mewn datblygiad economaidd.

- Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw syniadau cryf penodol ynglþn a rhoi blaenoriaeth i amcanion datganedig BCC, ond roedd yn teimlo'n gryf bod angen rhoi blaenoriaeth i drafod y cwestiwn o 'Branding Wales'. Roedd angen canolbwyntio ar greu darlun mwy cyfoes o Gymru fel gweriniaeth fodern gyda diwylliant ifanc a bwyiog yn ogystal â diwylliant hanesyddol. Dylai'r Cynulliad ystyried y posibilrwydd o gynnwys arweiniad ar Frandio yn y llythyrau Arweiniad Strategol i bob Corff Cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad.
- Roedd y Pwyllgor yn ffafrio sefydlu Fforwm Twristiaeth.
- O ran strwythur twristiaeth, roedd ymgynghoriad pellach yn ddymunol, yn enwedig â llywodraeth leol. Byddai BCC yn cael gwahoddiad i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddiwedd yr ymgynghoriad. **[Gweithredu: Adran Ysgrifenyddol i gysylltu â BCC]**
- Roedd buddsoddi mewn sefydlu TCG yn hanfodol. Roedd angen i hyn gynnwys sefydliadau llai yn ogystal â rhai mwy.
- O ran cyflwyno cynllun statudol ar gyfer graddio, roedd angen rhagor o ymchwil, yn enwedig i sefydlu a oedd angen deddfwriaeth eilaidd.

**Eitem 5: Ystyried Cyllideb y Cynulliad**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan atgoffa aelodau o'r materion a godwyd yn ymateb cyntaf y Pwyllgor i'r gyllideb, fel a adlewyrchwyd yn ei llythyr at Rhodri Morgan ar 24 Medi.

5.2 Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad grynodeb byr o'r prif faterion a oedd yn codi o'r cynigion cyllideb drafft:

- Roedd yn fodlon bod digon o gyllid i gwrdd â gofynion y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol.
- Roedd yr angen am gymorth gwell i fusnesau brodorol wedi'i drafod dan y pennawd 'Llwybr at Ffyniant'.
- Roedd datganiad pendant erbyn hyn, yn rhoi cefnogaeth i'r polisi sylfaenol, na wrthodir RSA i unrhyw gwmni oherwydd prinder cronfeydd.
- O ran CBDC, eglurodd bod yr amrywiad oedd i'w weld yn y llinell gyllideb yn adlewyrchu effaith incwm a gynhyrchwyd gan warediadau tir. O'r gyllideb oedd ar ôl, roedd y mwyafrif yn adlewyrchu ymrwymiadau cyfredol.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd pryder ymhlith rhai aelodau nad oedd barn ddatganedig y Pwyllgor y dylid rhoi llai o flaenoriaeth i CBDC wedi'i chydnabod. Nid oedd y lefelau cyllid wedi'u gostwng mewn gwirionedd ac nid oedd yr arbedion a wnaed o ganlyniad i incwm ychwanegol a gynhyrchwyd gan CBDC trwy warediadau tir wedi'u hailgyfeirio i feysydd eraill o'r gyllideb datblygiad economaidd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ddarparu papurau ar gynnydd â thrafodaethau CBDC cyn y Nadolig, ac ar lefelau presennol o ymrwymiad ym mhob llinell o'r gyllideb datblygiad economaidd. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- Mynegwyd pryder hefyd y gallai bygythiadau i gyllideb CBDC roi pwysau ar Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfaddawdu ar safonau amgylcheddol. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad sicrwydd i'r aelodau na fyddai cyfaddawd ar safonau.
- Mynegwyd pryder mawr am yr arwyddion y gallai toriadau yng nghyllideb CBDC eu creu.

Roedd aelodau'n bryderus hefyd nad oedd yr adnoddau hyn wedi'u hailddosbarthu o fewn y gyllideb datblygiad economaidd, yn enwedig i gynorthwyo cwmnïau brodorol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Teimlwyd y dylai'r Cynulliad roi'r flaenoriaeth uchaf bosibl i ddatblygiad economaidd.

- Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod y gostyngiad yn adlewyrchu gostyngiad yn ymrwymiad y WDA i gyllido rhan berfformio prosiect LlL. Roedd darpariaeth i gyllido'r rhan anweithredol ar gael o hyd os oedd ei angen. Cynigiodd Ysgrifennydd y Cynulliad ddarparu papur ar gyllideb gyflawn y WDA ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**
- Gofynnodd aelodau i'r ymgynghoriad arfaethedig ar y Gronfa Adfywio Lleol ddigwydd yn fuan iawn oherwydd y syniad ei fod yn *fait accompli*. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad sicrwydd i aelodau mai'r bwriad oedd ymgynghori cyn y Nadolig.
- Cwestiynwyd bodolaeth y swm o £3.9 miliwn oedd gan RSA wrth gefn. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad sicrwydd ei fod yn cynrychioli darpariaeth ddigonol i sicrhau na fyddai cais am grant yn cael ei wrthod am resymau cyllidebol.
- Roedd galw am i bolisi'r Cynulliad ar sefydlu banc buddsoddi gael ei adlewyrchu'n glir yn y gyllideb. Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai sefydlu banc o'r fath yn bolisi a oedd wedi'i gytuno gan y Cynulliad ond mai mater o amseru ydoedd. Gellid cael y cyllid o'r Gronfa LLwybr at Ffyniant unwaith y byddai'r manylion wedi eu cytuno.
- Cynigiodd Ysgrifennydd y Cynulliad ddarparu papur i gyfarfod yn y dyfodol ar lefelau hanesyddol, presennol ac arfaethedig punt am bunt ym mhob llinell o ddatblygiad economaidd a chyllidebau eraill y Cynulliad. Cafwyd cydnabyddiaeth y gallai fath bapur yn cymryd cryn amser i'w gynhyrchu. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Crynodeb y Cadeirydd**

5.4 Y Pwyllgor:

- am weld mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i Ddatblygiad Economaidd ac adfer y gyllideb sylfaenol wreiddiol. Dylid targedu'r arian ychwanegol ar gyfer cynorthwyo busnesau brodorol, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- parhau'n bryderus ynglþn â lefelau cyllid ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd, arian PES a chyllid punt am bunt.
- pryderus iawn ynglþn â'r cwtogi ar gyllideb y WDA. Byddai'r WDA yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu'r rhaglen Amcan 1 ac roedd yn hanfodol ei fod yn cael ei gyllido'n llawn i wneud hyn. Roedd y Pwyllgor yn ystyried y dylid atgyfeirio unrhyw arian dros ben at rannau eraill o Gymru, yn enwedig Gorllewin Cymru neu'r Cymoedd os mai'r ddadl oedd mai arian ychwanegol nad oedd ei angen bellach ar gyfer y prosiect LlL oedd y toriadau.
- teimlo bod ei syniadau am lefel y flaenoriaeth gyllido a roddwyd i CBDC wedi'u diystyru oherwydd mai derbyniadau ychwanegol oedd yn gyfrifol am y toriadau ym mlwyddyn 1, nid gostyngiad mewn gwariant, ac nid oedd newid yn y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd i ddod.

5. dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cynulliad ynglþn â'r pryderon hyn. **[Gweithredu: Cadeirydd]**